**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad** 27 Tachwedd 2001
**Amser** 9.30 a.m
**Lleoliad** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| John Griffiths | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Glyn Davies

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-26-2001 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau bod Mr Winston Roddick QC, y Cwnsler Cyffredinol, wedi gwahodd y Pwyllgor i ymweld â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (SCC) i arsylwi'r broses ddrafftio ddwyieithog. Trefnwyd yr ymweliad fel rhan o gyfarfod y Pwyllgor ar 4ydd Rhagfyr. Y bwriad oedd y byddai'r Pwyllgor yn cyfarfod i drafod unrhyw orchmynion ac yna teithio i SCC, lle y byddai'r aelodau yn cwrdd â Mr Roddick. Byddai amserlen lawn yn cael ei dosbarthu i'r aelodau.

2.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y bu'n fwriad ers cryn amser i'r Cyngor ymweld â Chydbwyllgor Offerynnau Statudol (CBOS) Tí 'r Cyffredin i ddysgu mwy am ei waith a'i weithdrefnau. Derbyniwyd gwahoddiad gan y CBOS a'r gobaith oedd cynnal yr ymweliad yn

ystod Ebrill neu Fai 2002. Fodd bynnag, oherwydd y caiff cyfarfodydd cydgynghorol y CBOS eu cynnal yn breifat bob amser ni allai'r aelodau arsylwi'r Pwyllgor wrth ei waith ond byddent yn cwrdd ag aelodau am drafodaeth ar ôl hynny.

2.3 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylid gwneud ymholiadau pellach ynlgí n â ph'un a ddylid caniatáu gollyngiad i aelodau'r Pwyllgor Deddfau, o ystyried eu sefyllfa fel aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i arsylwi cyfarfod. Pe na byddai hyn yn bosibl cynigwyd y dylid gwahodd aelodau neu swyddogion y CBOS i'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor Deddfau. **Gweithredu: Clerc**

2.4 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau mai hwn, fwy na thebyg, fyddai'r tro olaf i Rosemary Butler a John Griffiths fynychu cyfarfod fel aelodau o'r Pwyllgor Deddfau. Diolchodd iddynt am eu cyfraniad i waith y pwyllgor.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC371: Rheoliadau Dileu'r Bwrdd Ymyrraeth ar gyfer Cynnyrch Amaethyddol (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2001**
3.1 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cyfeiriodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol sylw'r cyfreithiwr drafftio at nifer o wallau teipograffyddol.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC371 (Adroddiad).

**LC372: Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001**
3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Byddai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y Weithdrefn Safonol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n briodol i'r pwyntiau hyn gael eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC372 (Adroddiad).

**LC373: Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) (Cymru) 2001**
3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Byddai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y Weithdrefn Safonol.

3.8 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd Aelodau fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Gan fod y rhain yn fân wallau drafftio cytunwyd y dylid eu diwygio o dan RhS22,13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei fod yn amodol ar gywiro'r gwallau yn y modd hwn.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC373 (Adroddiad).

**LC374: Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2001**

3.10 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Byddai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y Weithdrefn Safonol.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw yr oedd o'r farn y dylid ei gynnwys yn ei adroddiad. Pan wnaethpwyd rheoliadau tebyg yn Lloegr ym Medi 1999 nododd y CBOS amheuaeth ynglí n â grymoedd o ran y pë er i gymryd aderyn gwyllt a anafwyd, ar y sail bod achos ym 1954 ar Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1936 wedi nodi na ellid ystyried creadur byw fel gwrthrych. Ar ôl ystyried y ffaith bod y ddarpariaeth dan sylw yn parhau mewn grym yn Lloegr, fodd bynnag, ac y gallai'r Llysoedd, o bosibl, ganfod bod y sefyllfa bresennol yn wahanol i achos 1954, cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig ar y sail hwn.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC374 (Adroddiad).

**LC375: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2001**

3.13 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Byddai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y Weithdrefn Safonol.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC375 (Adroddiad).

**LC376: Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth (Cymru) (Diwygio) 2002**

3.16 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Byddai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y Weithdrefn Safonol.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r

Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC376 (Adroddiad).

**LC377: Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002**
3.19 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Byddai'r Gorchymyn yn cael ei wneud o dan y Weithdrefn Safonol.

3.20 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.21 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC377 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 4 Rhagfyr 2001.

-----------------------------7d11af1b1e2024e Content-Disposition: form-data; name="add_id_2"